

BBC Cod Ymddygiad

Cynnwys

Neges gan y Pwyllgor Gwaith	2
Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi	3
Ein Cenhadaeth, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd.....	4
I. Pobl	5
1.1 Codi'ch llais.....	5
1.2 Gweithio gyda phlant	6
1.3 Trin pawb yn gyfartal	6
1.4 Cadw pawb yn ddiogel.....	7
1.5 Dweud y peth iawn.....	8
Ein Safonau Golygyddol.....	8
2. Ymddygiad	11
2.1 Diogelu ein gwybodaeth	11
2.2 Atal llwgrwobrwyo a llygru	11
2.3 Sicrhau budd y cyhoedd.....	12
2.4 Diogelu'r hyn sy'n eiddo i'r BBC.....	13
3. Perthnasoedd.....	14
3.1 Prynu a gwerthu mewn modd moesol	14
3.2 Bod yn fwy gwyrdd	14
3.3 Chwarae'n deg	15
3.4 Gwario arian yn ddoeth.....	15
3.5 Bod yn gymdeithasol.....	16

Neges gan y Pwyllgor Gwaith

Nid darlledwr cyffredin mo'r BBC. Mae ganddo le arbennig yng nghalonau pobl. Mae'r tair llythyren syml yma'n golygu cymaint erbyn hyn.

Mae'n gyfrifoldeb amom ni i gyd i warchod enw da'r BBC yng nghyswllt tegwch, gwirionedd a gonestrwydd.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'n glir ac yn syml yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych chi pan fyddwch yn gweithio i'r BBC neu gyda'r BBC – a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y BBC. Dim ots ar ba lefel mae eich swydd, na ble y byddwch chi yn y byd.

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o'r egwyddorion arweiniol hyn a'u harddel yn eich gwaith o ddydd i ddydd. Ond y ddau beth pwysicaf yw gofyn pan nad ydych yn si gwybod bod rhywbeth ddim yn iawn. ŵr a cho

Byddwn yn gwrando, yn gweithredu ac yn gwneud yn si sefyll dros yr hyn sy'n iawn.

weithredu yn diodde

Fe rown ein gair i chi.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Darllenwch a gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'r wybodaeth yn ein Côt er mwyn deall eich cyfrifoldebau. Bydd hyn yn wahanol i bawb – yn dibynnu ar eich perthynas gyda'r BBC - aelod o staff, gweithiwr llawrydd, partner neu gyflenwr er enghraifft.

- Ymddwyn mewn ffordd ddiogel a moesegol sy'n gyson â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, yn ogystal â gofynion, gwerthoedd ac ymddygiadau'r BBC.
- Gofyn cwestiynau a mynegi pryderon os byddwch yn ymwybodol o achos o dorcyfraith neu dorri rheoliadau, ein Cod neu ofynion y BBC.
- Cydweithredu'n llawn pan fyddwch yn ymateb I ymchwiliad neu archwiliad

Cyfrifoldebau ychwanegol y rheolwyr

Rydym hefyd yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- bod yn fodel rôl ac arwain drwy esiampl
- creu awyrgylch lle mae pawb yn parchu ei gilydd ac yn teimlo bod croeso iddynt
- annog pobl i godi eu llais a gofyn cwestiynau
- gwranddo, cymryd pobl o ddifrif a gweithredu pan maent yn codi eu llais – peidiwch byth â'u cosbi mewn unrhyw ffordd am wneud hynny
- helpu'ch tîm i ddeall beth mae'r BBC a'r gyfraith yn ei ddisgwyl ganddynt o ddydd i ddydd
- Glynu wrth yr un safonau gyda phawb a thrin pawb yn yr un ffordd bob amser.

Ein Cenhadaeth, ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Mae ein cenhadaeth yn syml – sef gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnych a gwasanaethau diduedd, nodedig o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Ein Gweledigaeth yw gwneud hyn drwy sicrhau mai ni yw'r sefydliad mwyaf creadigol yn y byd.

Ond rydym yn canolbwyntio ar fwy na'r hyn a wnawn – mae sut rydym yn gwneud pethau'n bwysig inni hefyd.

Mae gennym set o werthoedd y mae pobl ledled y BBC yn eu rhannu. Maent yn cynrychioli ein disgwyliadau ohonom ein hunain ac o'n gilydd; maent yn llywio ein penderfyniadau o ddydd i ddydd a'r ffordd rydym yn ymddwyn.

Nid geiriau gwag yw'r rhain – rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n gweithio i ni arddel y gwerthoedd hyn o ddydd i ddydd pan fyddant yn gweithio gyda chydweithwyr, cwsmeriaid, cynulleidfaoedd, cyflenwyr, partneriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ymddiriedaeth yw sylfaen y BBC; rydym yn annibynnol, yn amhleidiol ac yn onest

Rydym yn onest ac yn deg ac rydym yn ddigon dewr i ddweud ac i wneud yr hyn sy'n iawn. Rydym yn cyflawni'r hyn rydych ni'n ei addo ac yn cymryd cyfrifoldeb dros ein gweithredoedd.

Mae cynulleidfaoedd wrth galon popeth a wnawn

Rydym yn meddwl am ein cynulleidfaoedd yn gyntaf ac yn addasu i ddiwallu eu hanghenion sy'n newid.

Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth

Rydym yn trin ein gilydd yn deg ac yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau unigolion eraill. Rydym yn agored i safbwyntiau gwahanol i'n rhai ni ein hunain, ac yn lleisio ein barn yn agored ac yn gwrtais. Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud, byddwn yn ei barchu ac yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau ei fod yn llwyddo.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn sicrhau ansawdd a gwerth am arian

Rydym yn ein gwthio ein hunain i wneud ein gorau ac i weithio i'r safon uchaf posib, er mwyn i ni allu bod yn falch o bopeth rydym yn ei wneud. Rydym yn canfod ffyrdd symlach o wneud pethau ac yn gwario arian y rheini sy'n talu ffi'r drwydded yn ofalus, fel y byddem yn ei wneud â'n harian ein hunain.

Creadigrwydd yw hanfod ein sefydliad

Rydym yn arloesol a does dim ofn gennym ni roi cynnig ar bethau gwahanol a thorri tir newydd. Rydym yn ein herio ein hunain i roi cynnig ar brofiadau newydd ac i ddal ati i ddatblygu.

Un BBC ydym ni. Mae pethau gwych yn digwydd pan fyddwn yn cydweithio

Rydym yn sicrhau ymroddiad llwyr ac yn gweithio gyda'n gilydd fel un tîm, gan rannu ein syniadau'n agored a chwilio am syniadau gan unigolion eraill a gwrando amynt. Fel llysgenhadon i'r BBC, rydym yn cynrychioli ac yn dathlu'r pethau gwych rydym i gyd yn eu gwneud.

I. Pobl

Parchu ein gilydd

Ble bynnag rydyn ni yn y byd, rydym yn parchu pobl a'u hawliau: y bobl o'n cwmpas ni, y bobl rydym yn gweithio gyda nhw a'r bobl rydym yn eu cynrychioli. Rydym eisiau i'r BBC fod yn rhywle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn ddiogel a bod pobl yn eu gwerthfawrogi ac yn gwrandao arnynt. Rhywle lle mae pobl yn teimlo y gallant siarad yn rhydd. Rhywle lle mae gan bawb yr un cyfleoedd i dyfu a datblygu. Rhywle sy'n cynhyrchu cynnwys creadigol a gwreiddiol o ansawdd uchel – sy'n cyrraedd y safonau golygyddol uchaf posib yn y ffordd fwyaf moesegol bosib.

I.1 Codi'ch llais

Dydy gwneud y peth iawn ddim yn ddigon. Mae dyletswydd ar bob un ohonom i godi'n llais os byddwn yn gweld rhywun arall yn gwneud rhywbeth sydd ddim yn iawn – ac i gymryd pobl o ddifrif pan fyddant yn dweud wrthym.

Gall codi'ch llais fod yn frawychus, yn enwedig pan mai chi yw'r unig un sy'n fodlon gwneud hynny, neu pan mae pobl bwerus yn rhan o'r sefyllfa. Dyna pam mae gennym llinell frys Chwythu'r Chwiban. Dim ond un person sydd ei angen i domi'r distawrwydd.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn yn cymryd yr hyn rydych yn ei ddweud wrthym o ddifrif ac yn ymchwilio – heb ddatgelu pwy ydych chi.
- Fyddwch chi ddim yn mynd i drwbl am godi'ch llais – a byddwn yn cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw un sydd wedi'ch bygwth, eich dychryn neu'ch bwlio chi mewn unrhyw ffordd.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Pan fyddwch yn gweld rhywbeth sydd ddim yn iawn, byddwch yn dweud wrth eich rheolwr ar unwaith.
- Os yw'n cynnwys plant – byddwch yn dweud wrth eich Ymgynghorydd Amddiffyn Plant Lleol (ewch i Gateway i ganfod pwy yw'ch un chi).
- Os na fyddwch yn gallu dweud wrth eich rheolwr – byddwch yn ffonio llinell frys gyfrinachol y BBC, Chwythu'r Chwiban, ar 0800 374199.
- Byddwch yn gwneud popeth y gallwch chi i archwilio ac i ganfod y gwir.
- Byddwch yn cymryd pobl o ddifrif pan fyddant yn codi eu llais – ac ni fyddwch yn ceisio eu hannog i beidio â gwneud hynny, na'u cosbi mewn unrhyw ffordd.
- Siaradwch â'ch Rheolwr Llinell.
- Os byddwch yn teimlo na allwch chi siarad â'ch rheolwr llinell a'i fod yn ymwneud â chamweithredu, cysylltwch â llinell frys gyfrinachol Expolink y BBC, Chwythu'r Chwiban, ar 0800 374199.
- Byddwch yn cynorthwyo mewn archwiliad i unrhyw achos.
- Fyddwch chi byth yn taro'n ôl yn erbyn rhywun sy'n Codi ei Llais neu ei Llais

1.2 Gweithio gyda phlant

Weithiau mae ein gwaith yn ymwneud â phlant. Yn yr achosion hynny, rydyn ni i gyd yn gyfrifol am eu cadw'n ddiogel.

Mae gennym Bolisi Amddiffyn Plant a chod ymddygiad Gweithio gyda Phlant sy'n rhoi canllawiau clir ynglŷn â sut mae gwneud hynny. Hefyd, mae gennym ni Ymgynghorwyr Amddiffyn Plant ledled y BBC i wneud yn siŵr ein bod yn eu harddel o ddydd i ddydd.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym ganllawiau a pholisi clir ynglŷn â Gweithio gyda Phlant a chod ymddygiad ymwneud â phlant.
- Bydd gennym Ymgynghorwyr Amddiffyn Plant yn gweithio ledled y BBC i wneud yn siŵr ein bod yn eu harddel o ddydd i ddydd.
- Byddwn yn ystyried eich pryderon o ddifrif – ac ni fyddwch yn mynd i unrhyw drwbl am godi'ch llais.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn darllen ein Polisi Amddiffyn Plant a'n canllawiau ar Ddiogelwch Ar-lein a Chyfyngau Cymdeithasol – a byddwch yn eu dilyn.
- Byddwch yn ymwybodol o bwy yw'ch Ymgynghorydd Amddiffyn Plant.
- Byddwch yn rhoi diogelwch a lles plant uwchlaw popeth arall.
- Byddwch yn cofio eich bod yn gweithio gyda phlant, gan siarad ac ymddwyn mewn ffordd broffesiynol a phriodol bob amser.
- Byddwch yn osgoi cyswllt corfforol â phlant, oni bai ei fod yn rhan hanfodol o'r hyn rydych yn gweithio arno.
- Os oes gennych chi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â phlant, byddwch yn dweud wrth eich Ymgynghorydd Amddiffyn Plant ar unwaith.

1.3 Trin pawb yn gyfartal

Pan fyddwn yn dweud ein bod yn gwerthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth, nid geiriau gwag mo'r rheini. Po fwyaf cyfoethog yw'r gymysgedd o bobl sy'n gweithio i ni, y mwyaf cyfoethog fydd ein cynnwys. Mae dyletswydd arnom i adlewyrchu cymdeithas gyfan.

Rydym yn cyflogi ac yn dyrchafu pobl ar sail eu talent a'u teilyngdod – nid pwy maent yn ei adnabod nac o ble maent yn dod. Rydym yn helpu ac yn cefnogi'n gilydd. Rydym yn gwneud yn siŵr bod gan bawb gyfleoedd i lwyddo. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu o unrhyw fath, a byddwn yn codi'n llais pan fyddwn yn gweld hynny.

Byddwn yn cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw un sy'n croesi'r llinell, gan gynnwys eu diswyddo ar sail camymddwyn difrifol, os yw'n achos difrifol.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Pryd bynnag y byddwn yn cyflogi neu'n dyrchafu rhywun, byddwn yn trin pawb yn gyfartal ac yn deg – ar sail eu talent, eu teilyngdod a pha mor addas ydynt ar gyfer y swydd.
- Byddwn yn darparu hyfforddiant ac yn eich helpu i dyfu a datblygu – yn ogystal â chael sgysiau agored ac adeiladol ynglŷn â'ch perfformiad.

- Byddwn yn gwneud popeth y gallwn ni i wneud yn si ŵr bod genny
bywyd a gwaith, gan gynnwys gweithio'n hyblyg neu addasu'ch gweithfan, os yw hynny'n bosib.
- Byddwn yn gwneud popeth y gallwn ni i sicrhau bod pawb yn parchu ei gilydd.
- Fyddwn ni ddim yn goddef bwlio, aflonyddwch na thrais o unrhyw fath – p'un ai a yw hynny gan rywun yn y BBC neu yn erbyn rhywun yn y BBC – gan gynnwys negeseuon enllibus a sylwadau difriol neu amhriodol.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn trin pawb yn deg, yn gyfartal a gyda pharch.
- Byddwch yn deall yr hyn sy'n briodol ac nad yw'n briodol, er mwyn gwneud yn si ŵr nad ydych
gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un (hyd yn oed mewn camgymeriad).
- Byddwch yn darllen ein polisiâu ac yn eu dilyn, yn ogystal ag unrhyw gyfreithiau a rheoliadau.
- Byddwch yn parchu diwylliant a chred pobl eraill.
- Fyddwch chi ddim yn gwneud dim byd a allai fod yn enllibus, yn frawychus, yn faleisus neu'n sarhaus i unrhyw un arall.
- Fyddwch chi ddim yn codi cywilydd ar unrhyw un arall, yn eu brifo nac yn hel clecs amdanynt heb gyfiawnhad.
- Byddwch yn rhoi gwybod i rywun am achosion o fwlio, aflonyddwch neu drais o unrhyw fath os byddwch yn gweld hynny – hyd yn oed os mai dim ond amau bod rhywbeth o'i le rydych chi.
- Os bydd unrhyw un yn dweud bod rhywun yn aflonyddu arno neu'n ei fwlio, byddwch yn ein helpu ni i ymchwilio er mwyn canfod y gwir.

1.4 Cadw pawb yn ddiogel

Dim ots pwy ydych chi na beth rydych yn ei wneud yn y BBC, bydd pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud fel rhan o'ch swydd er mwyn cadw ein pobl, ein systemau, ein data a'n hadeiladau yn ddiogel. Mae dyletswydd amom ni i osod canllawiau clir ar gyfer popeth rydym yn ei wneud, er mwyn i chi wybod beth yw'r peth iawn i'w wneud, ar yr adeg iawn – ac mae dyletswydd amoch chi i gydymffurfio â'r rheini.

Gyda'n gilydd, rydym yn gyfrifol am gadw ein pobl, ein systemau, ein data a'n hadeiladau yn ddiogel.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym adnoddau, hyfforddiant a chanllawiau clir a rhesymol i'ch helpu i gyflawni eich swydd yn ddiogel o ddydd i ddydd.
- Os ydych yn cynllunio neu'n rhedeg pethau yn y gwaith, byddwn yn darparu'r wybodaeth a'r cyngor proffesiynol sydd eu hangen amoch i gyflawni hyn yn ddiogel.
- Byddwn yn dilyn yr holl gyfreithiau a'r rheoliadau ynghylch iechyd a diogelwch – mewn modd synhwyrol ac ymarferol.
- Byddwn yn meddwl am ffyrdd newydd o ymateb i broblemau neu fygythiadau pan fyddant yn codi.
- Byddwn yn sicrhau bod yr asesiadau risg a bygythiadau ar gyfer ein holl adeiladau ledled y byd yn gyfredol – ac yn buddsoddi mewn diogelwch corfforol gan gynnwys rheoli mynediad, er enghraifft)
- Byddwn yn dweud wrthy ch chi bob amser os bydd angen newid y gweithdrefnau diogelwch.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn gyfarwydd â'n gweithdrefnau a'n polisiâu diogelwch - ac yn cydymffurfio â nhw bob dydd.
 - Gwisgwch eich pas BBC ym mhob un o'n hadeiladau
 - Peidiwch â gadael i bobl eich dilyn drwy'r drysau
 - Os gwelwch rywbeth amheus, dywedwch wrth rywun

- Os ydych yn trefnu gweithgaredd, gwnewch asesiad risg priodol yn gyntaf er mwyn canfod beth yw'r peryglon posibl – a naill ai gael gwared â nhw (os gallwch chi), neu roi rheolyddion diogelwch priodol ar waith er mwyn lleihau'r siawns bod rhywbeth yn mynd o'i le i'r graddau mwyaf posibl.
- Os ydych yn trefnu gweithgaredd Risg Uchel, bydd angen i chi gynnwys rhywun o'r tîm Risg Uchel (yn ogystal â chynnal asesiad risg priodol eich hun).
- Byddwch yn agored ac yn onest am yr hyn rydych yn ei wneud – ac yn barod i fod yn greadigol er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wneud hynny'n ddiogel.
- Byddwch yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelwch ac argyfwng lle bynnag rydych yn gweithio – a byddwch yn gwisgo'ch cerdyn adnabod pan fyddwch yno.
- Byddwch yn rhoi gwybod i'r tîm diogelwch ar unwaith os byddwch yn gweld rhywbeth amheus.

I.5 Dweud y peth iawn

Sicrhau ein Safonau Golygyddol

Pan mae'r BBC yn siarad, mae'r byd yn gwranddo. Mae pobl yn disgwyl bod beth bynnag rydym yn ei ddweud wrthynt yn wir, yn gywir ac mor ddiuedd â phosibl – ac yn seiliedig ar dystiolaeth hygred o ffynonellau dibynadwy. Fel darlledwr cyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf posibl bob amser. Mae ein henw da yn dibynnu ar hynny. Ac mae ein Siarter a'n Cytundeb yn mynnu hynny.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym safonau golygyddol clir, sy'n unol â'n Siarter a'n cytundeb – ac yn parhau i esblygu yn ôl yr angen.
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw ein safonau golygyddol ac os byddant yn newid – yn ogystal â darparu ffyrdd i chi roi gwybod i ni os nad ydych yn credu ein bod yn eu cyflawni.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch bob amser yn ystyried ein rhyddid i lefaru ochr yn ochr â'n cyfrifoldeb i wneud pethau fel parchu preifatrwydd pobl, bod yn deg, osgoi sarhad, a gwneud yn si w'r nad oes
niweidio.
- Byddwch yn gwneud eich gorau i sicrhau bod popeth rydych yn ei wneud yn cyrraedd ein safonau golygyddol, ar ba bynnag gyfrwng y bo hynny: radio, teledu, ar-lein, symudol, digidol neu brint.

Ein Safonau Golygyddol

- Ymddiriedaeth**- Ymddiriedaeth yw sylfaen y BBC; rydym yn annibynnol, yn amhleidiol ac yn onest. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau uchaf o ran didueddrwydd a chywirdeb teg ac rydym yn ymdrechu i beidio â charmarwain ein cynulleidfaoedd yn sylweddol nac yn fwiadol.
- Y gwir a chywirdeb**- Byddwn yn ceisio canfod y gwir am yr hyn sydd wedi digwydd ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni cywirdeb teg yn ein holl allbwn. Mae cywirdeb yn golygu mwy na dim ond cael y ffeithiau'n iawn; pan fydd angen, byddwn yn pwysu ac yn mesur ffeithiau a gwybodaeth berthnasol er mwyn cyrraedd y gwir. Bydd ein hallbwn, fel sy'n briodol i'w bwnc a'i natur, yn dod o ffynonellau da, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, wedi'i brofi'n drwyadl ac wedi'i gyflwyno mewn

iaith glir a chywir. Byddwn yn ymdrechu i fod yn onest ac yn agored am yr hyn nad ydym yn ei wybod ac yn osgoi dyfalu di-sail.

- iii. **Didueddrwydd** - Mae didueddrwydd yn ganolog i ymrwymiad y BBC i'w gynulleidfaeodd. Byddwn yn sicrhau bod ein holl gynnwys yn ddiuedd ac yn cynrychioli ystod ac amrywiaeth o safbwyntiau ledled ein hallbwn, dros gyfnod priodol er mwyn sicrhau nad oes yr un farn arwyddocaol sydd ddim yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol neu'n cael ei thangynrychioli yn fwriadol. Byddwn yn archwilio tystiolaeth ac yn pwysu a mesur ffeithiau materol yn deg a gyda meddwl agored.
- iv. **Annibyniaeth a didwylledd golygyddol** - Mae'r BBC yn annibynol ar drefniadau a buddiannau allanol a allai danseilio ein didwylledd golygyddol. Dylai ein cynulleidfaeodd fod yn hyderus nad yw buddiannau allanol, pwysau gwleidyddol na masnachol, nac unrhyw ddiddordebau personol yn dylanwadu ar ein penderfyniadau nac yn eu gyrru.
- v. **Niwed a thramgwydd** - Rydym yn ceisio adlewyrchu'r byd fel ag y mae, gan gynnwys pob agwedd ar y profiad dynol a gwirioneddau'r byd naturiol. Ond rydym yn cydbwysu ein hawliau i ddarlledu cynnwys heriol ac arloesol â'n cyfrifoldeb i amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed, ac i atal troseddau na ellir eu cyfiawnhau. Byddwn yn sensitif i safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol ac yn cydymffurfio â nhw, yn ogystal â disgwyliadau ein cynulleidfa o'n cynnwys, yn arbennig felly mewn perthynas â gwarchod plant.
- vi. **Sicrhau budd y cyhoedd** - Byddwn yn ceisio adrodd ar straeon sydd o bwys i'n cynulleidfaeodd. Byddwn gwneud gwaith trwyadl i sefydlu'r gwirionedd mewn straeon ac yn sicrhau bod gennym ddigon o wybodaeth pan fyddwn yn egluro hynny. Bydd ein harbenigwyr yn dadansoddi'r byd cymhleth rydym yn byw ynddo ac yn dod ag elfen o awdurdod i hynny. Byddwn yn gofyn cwestiynau treiddgar i'r rheini sy'n dal swyddi cyhoeddus, ac i eraill sy'n atebol, ac yn darparu fforwm gynhwysfawr ar gyfer dadleuon cyhoeddus.
- vii. **Tegwch** - Bydd ein hallbwn yn seiliedig ar fod yn deg, yn agored, yn onest ac yn uniongyrchol. Bydd cyfranwyr a chynulleidfaeodd yn cael eu trin â pharch.
- viii. **Preifatrwydd** - Byddwn yn parhau preifatrwydd pobl ac ni fyddwn yn tarfu ar hynny heb reswm da, ble bynnag yn y byd fyddwn ni'n gweithredu. Ni fydd ymddygiad preifat, gwybodaeth, gohebiaeth na sgysiau yn cael eu cynnwys yn ein parth cyhoeddus oni bai fod y budd cyhoeddus yn gwrthbwysu'r disgwyl i sicrhau preifatrwydd.
- ix. **Plant** - Byddwn bob amser yn ceisio diogelu lles plant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at ein cynnwys ac yn ymddangos ynddo, ble bynnag yn y byd y byddwn ni'n gweithio. Byddwn yn diogelu eu hawl i ddweud eu dweud ac i gymryd rhan, gan sicrhau ein bod yn amddiffyn eu hurddas a'u lles corfforol a meddyliol yn ystod y gwaith o greu a darlledu ein hallbwn. Bydd cynnwys sy'n anaddas i blant yn cael ei ddarlledu ar amser priodol.
- x. **Tryloywder** - Byddwn yn dryloyw am natur a tharddiad y cynnwys rydym yn ei gynnig ar-lein. Pan fydd yn briodol, byddwn yn nodi pwy sydd wedi'i greu a byddwn yn defnyddio labeli i helpu defnyddwyr ar-lein i wneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd y cynnwys iddynt eu hunain ac i'w plant.
- xi. **Atebolrwydd** - Rydym yn atebol i'n cynulleidfaeodd a byddwn yn delio â nhw yn deg ac yn agored. Mae eu hymddiriedaeth barhaus yn y BBC yn rhan hanfodol o'n perthynas ni â nhw.

Byddwn yn agored drwy gydnabod camgymeriadau pan gânt eu gwneud a byddwn yn hybu diwylliant o barodrwydd i ddysgu o gamgymeriadau.

2. Ymddygiad

Gwneud y peth iawn

Mae'n cymryd llawer iawn o wybodaeth ac offer i wneud yr hyn rydym yn ei wneud. Mae pawb yn chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau na all unrhyw un ddwyn y rhain, ymyrryd â nhw na'n hatal ni rhag cael mynediad atynt.

Hefyd, ein cyfrifoldeb ni yw gwneud yn siŵr nad yw'r hyn rydym yn ei wneud yn cael ei ddifetha oherwydd llygredd neu lwgrwobrwyath ac nad yw buddiannau allanol yn dylanwadu ar hynny – nid yn y BBC yn unig, ond ymysg y bobl rydym yn prynu ganddynt ac yn gweithio gyda nhw hefyd.

2.1 Diogelu ein gwybodaeth

Mae hacwyr yn ceisio ymosod ar ein systemau, eu torri neu eu meddiannu o hyd. Dyna pam mae gennym dîm Diogelu Gwybodaeth sy'n gweithio bob awr o'r dydd ac sydd ar gael bob amser, unrhyw bryd y mae angen cymorth amoch.

Ond yn y pen draw, y pethau bach rydych yn ei wneud bob dydd sy'n gwneud gwahaniaeth – drwy warchod eich cyfrineiriau ac yn pwylllo i feddwl cyn clicio ar ddolen neu agor atodiad mewn e-bost.

Mae ein Polisi Defnydd Derbyniol yn dweud wrthyfych yn union beth y dylech neu na ddylech ei wneud pan fyddwch yn defnyddio cyfrifiaduron, e-bost, y rhyngwyd, ffonau, ffonau clyfar a mwy. Eich cyfrifoldeb chi yw ei ddarllen, ei ddysgu a'i ddilyn.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym bolisiau clir y gall pawb gael mynediad atynt, sy'n egluro'r hyn y dylech a'r hyn na ddylech ei wneud er mwyn cadw ein gwybodaeth a'n systemau'n ddiogel.
- Byddwn yn darparu pa bynnag hyfforddiant sydd ei angen amoch er mwyn rhoi ein polisiau ar waith mewn sefyllfa real.
- Byddwn yn amddiffyn ac yn cynnal a chadw ein systemau er mwyn gwneud yn siŵr bob modur ddal ati i weithio heb unrhyw beth yn tarfu amoch.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- yddwch yn pwylllo i feddwl cyn agor atodiad neu cyn clicio ar ddolen mewn e-bost, gan roi gwybod i informationsecurity@bbc.co.uk am unrhyw beth amheus.
- Byddwch yn dewis cyfrineiriau hir ac yn eu newid ar unwaith os ydych chi'n credu bod rhywun wedi cael gafael arnynt.
- Byddwch yn ofalus gydag unrhyw ddyfeisiau symudol (fel ffonau clyfar a dyfeisiau tabled) rydych yn eu defnyddio i gael mynediad at wybodaeth neu systemau'r BBC – ac yn rhoi gwybod i rywun ar unwaith os byddant yn cael eu dwyn neu'n mynd ar goll.
- Byddwch chi ddim ond yn defnyddio gwasanaethau yn y cwmwl sydd wedi'u cymeradwyo gan y BBC
- Fyddwch chi ddim yn defnyddio'ch e-bost personol (e.e. Gmail, Hotmail ac ati) at ddibenion gwaith.

2.2 Atal llwgrwobrwyo a llygru

Ni allwn ganiatáu i unrhyw gynnwys, unrhyw beth rydym yn ei wneud nac unrhyw un rydym yn gweithio gyda nhw ddangos arlliw o lwgrwobrwyo neu lygru.

Mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i ddweud wrth rywun pan fyddwn yn gweld rhywbeth – boed hynny yn y BBC neu'n ymwneud â'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw neu'n prynu ganddynt.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn bob amser yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio yma, a phawb rydym yn gweithio gyda nhw, yn ymwybodol nad ydym yn goddef unrhyw lwgrwobrwyo na llygru.
- Byddwn yn cynnal archwiliadau priodol cyn dechrau perthynas o unrhyw fath gydag unrhyw un y tu allan i'r BBC (hyd yn oed os yw'n ddi-dâl).
- Byddwn yn cadw llygad yn gyson er mwyn gwneud yn si ŵr bod ein p
cydymffurfio â'n safonau – ac yn stopio gweithio gyda nhw os na fyddant yn gwneud hynny.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn darllen, yn dysgu ac yn dilyn ein polisi ar lwgrwobrwyo a llygru.
- Fyddwch chi ddim yn gwneud unrhyw beth sy'n edrych neu'n teimlo fel llwgrwobrwyo neu lygru – hyd yn oed os nad dyna ydyw'n dechnegol.
- Byddwch yn gwneud hyfforddiant gwrth-lwgrwobrwyo a llygru ar-lein ac yn ei arddel o ddydd i ddydd.
- Byddwch yn gofyn i'r tîm Cyngor ar Risg am gymorth a chyngor os oes gennych chi unrhyw amheuan neu bryderon.
- Fyddwch chi ddim yn troi llygad ddall.
- Os byddwch yn gweld neu'n clywed unrhyw beth amheus, byddwch yn rhoi gwybod i rywun yn syth – naill ai drwy ddweud wrth eich rheolwr llinell neu gynrychiolydd materion cyfreithiol a busnes, neu drwy ffonio ein llinell frys gyfrinachol, Chwythu'r Chwiban, ar 0800 374199.

2.3 Sicrhau budd y cyhoedd

Rydym yma i sicrhau budd y cyhoedd, nid ein budd ein hunain. Ni ddylai unrhyw beth rydych yn ei wneud wrth weithio i'r BBC fod er eich budd personol eich hun – p'un ai a ydych yn hyrwyddo busnes mae gennych chi gysylltiad personol ag ef, neu'n gwthio'ch daliadau gwleidyddol eich hun.

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod ble i dynnu'r llinell. Dyna pam mae gennym bolisi Datgan Buddiannau Personol sy'n egluro'n glir beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, a beth y dylech ei wneud os ydych yn credu bod problem.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym bolisi clir ynghylch Buddiannau Personol sy'n dweud wrthyh yn union beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol – a byddwn yn gwneud yn si ŵr bod pa
- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen amoch i ddeall ein polisiau a'u rhoi ar waith yn eich gwaith o ddydd i ddydd

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Fyddwch chi ddim yn gadael i'ch buddiannau allanol ddylanwadu ar eich crebwyll yn y gweithle, nac i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro effeithio ar eich gwaith. Os byddwch yn credu bod gwrthdaro posib, byddwch yn dweud wrth eich rheolwr ar unwaith ac yn llenwi ffurflen Datgan Buddiannau Personol.

- Byddwch yn ystyried achosion posib o fuddiannau'n gwrthdaro o leiaf unwaith y flwyddyn, pryd bynnag y byddwch yn newid rôl neu pan fo'ch amgylchiadau'n newid.
- Byddwch yn dal ati i gadw llygad am unrhyw wrthdaro posib pan fydd yn codi – p'un ai a yw wedi digwydd eto neu beidio.
- Fyddwch chi ddim yn gwneud unrhyw beth sy'n debygol o niweidio ein henw da am fod yn annibynnol ac yn ddiuedd.
- Os ydych yn rhan o greu unrhyw gynnwys ar gyfer y BBC, byddwch yn darllen ein Polisi Golygyddol – Canllawiau Gwrthdaro Buddiannau – ac yn ei ddilyn.

2.4 Diogelu'r hyn sy'n eiddo i'r BBC

Rydym i gyd yn gyfrifol am wneud yn si ŵr bod ein cy
rydym yn eu prynu neu'n buddsoddi ynddynt – o asedau ffisegol fel camerâu a microffonau, i asedau deallusol fel ymchwil a syniadau.

Mae hynny'n cynnwys gwneud popeth y gallwn ni i sicrhau nad ydynt yn cael eu dwyn neu'n mynd ar goll – yn ŵr nad ydyn ni'n gwastraffu a
ogystal â gwneud yn si

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn yn gwneud yn si ŵr bod g
iawn – gan gynnwys y cyfarpar cywir.
- Bydd gennym broses glir a syml ar gyfer cofnodi unrhyw beth sydd ar goll neu wedi cael ei ddwyn, neu ar gyfer riportio amheuaeth o dwyll.
- Fyddwn ni ddim yn goddef unrhyw un yn camddefnyddio neu'n cam-drin unrhyw beth sy'n eiddo i'r BBC – gan gynnwys treuliau.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn ofalus gydag unrhyw beth sy'n eiddo i'r BBC, er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei ddifrodi, ei gamddefnyddio, ei golli na'i ddwyn.
- Os yw'ch swydd yn cynnwys gwario arian y BBC, byddwch yn gwneud penderfyniad ar sail yn â sut rydy
gwybodaeth yngl gwerth gorau posib am arian.
- Byddwch yn gwneud yr hyn sydd orau i'r BBC, nid i'ch buddiannau personol eich hun.
- Byddwch yn rhoi gwybod i rywun ar unwaith os bydd unrhyw beth sy'n eiddo i'r BBC yn cael ei golli neu ei ddwyn.
- Fyddwch chi ddim yn gwerthu unrhyw beth sy'n eiddo i'r BBC er eich elw eich hun.
- Byddwch yn cadw cofnodion priodol o unrhyw rai o asedau'r BBC rydych yn eu defnyddio yn eich swydd.
- Byddwch yn gwarchod ein heiddo deallusol – ac ni fyddwch yn dwyn nac yn copïo gwaith neu syniadau pobl eraill.

3. Perthnasoedd

Gweithio gydag eraill

Fel darlledwr cyhoeddus, mae'n rhaid i ni arwain drwy esiampl. Mae'n rhaid i bopeth rydym yn ei wneud gyrraedd y safonau uchaf posib – gan gynnwys sut rydym yn prynu ac yn gwerthu pethau a gan bwy rydym yn eu prynu, yn ogystal â'n heffaith ar yr amgylchedd a'r hyn rydym yn ei ddweud ar gyfryngau cymdeithasol.

3.1 Prynu a gwerthu mewn modd moesol

Mae'n rhaid i unrhyw beth rydym yn ei brynu neu'n ei werthu, a'r bobl rydym yn prynu ganddynt, gydymffurfio â'n gwerthoedd.

Fel darlledwr cyhoeddus, mae dyletswydd unigryw amom i sicrhau bod y rheini sy'n talu ffi'r drwydded yn cael y gwerth gorau posib am arian.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym bolisiau clir ar brynu a gwerthu'n foesebol, a fydd yn egluro'r hyn sy'n cael ei ganiatáu ac nad yw'n cael ei ganiatáu – a byddwn yn gwneud yn si eu gweld. ŵr bod p
- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen amoch er mwyn rhoi ein polisiau ar waith.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn darllen ein polisiau caffael a'n polisi Canfod Ffynonellau Moesegol (BBCW) – ac yn eu dilyn yn eich gwaith o ddydd i ddydd.
- Os ydych yn ymwneud yn uniongyrchol â phrynu cynnyrch neu wasanaethau ar gyfer y BBC, byddwch yn asesu pwy bynnag rydych yn prynu ganddynt er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau.
- Os nad ydych yn si neu'n gofyn i rywun sy'n gwybod (os ydych yn gweithio yn BBCW, y tîm Canfod Ffynonellau Moesegol sydd ei angen amoch). ŵr p'un ai

3.2 Bod yn fwy gwyrdd

Mae ein nod yn syml – sicrhau mai ni yw'r darlledwr mwyaf cynaliadwy yn y byd, yn ddieithriad.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn yn arwain y ffordd o ran cynaliadwyedd, drwy sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posib.
- Byddwn yn rhedeg ein holl adeiladau a'n technoleg yn y modd mwyaf effeithlon posib, yn defnyddio llai, yn gwastraffu llai, ac yn anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi – yn ogystal â chael gorsafoedd ailgylchu.
- Byddwn yn prynu trydan adnewyddadwy.
- Byddwn yn cynnal hyfforddiant amgylcheddol i bawb sy'n gweithio yma ac yn rhoi cyngor arbenigol i unrhyw un sydd ei angen – o unigolion a thimau i adrannau cyfan.
- Byddwn yn cydweithio â darlledwyr eraill i rannu ymarfer gorau [dolen i <http://wearealbert.org/>]

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn helpu i arbed ynni drwy ddiffodd goleuadau neu gyfarpar trydanol arall pan fo hynny'n bosib.
- Byddwch yn ein helpu i leihau ein hól troed carbon drwy ddefnyddio adnoddau telegynadleda (fel Lync) i leihau faint mae'n rhaid teithio.
- Byddwch yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd o wastraffu llai ac ailgylchu mwy.
- Byddwch yn defnyddio'ch creadigrwydd a'ch dylanwad i annog pobl o'ch cwmpas i ddefnyddio llai, i wastraffu llai ac i ailgylchu mwy hefyd.

3.3 Chwarae'n deg

Rydym yn ddarllidwr cyhoeddus sy'n derbyn llawer o arian cyhoeddus. Ond mae gennym ochr fasnachol hefyd, sy'n cystadlu â chwmnïau preifat ledled y byd.

Mae hynny'n golygu bod rhaid i ni fod yn eithriadol o ofalus nad ydym yn ecsbloetio ein safle fel darllidwr cyhoeddus i roi mantais annheg i ni yn y farchnad – yn ogystal â bod yn deg ac yn agored ynghylch sut rydym yn penderfynu gan bwy rydym yn prynu, i bwy rydym yn gwerthu a gyda phwy rydym yn gweithio.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen amoch i gael y gwerth gorau am arian yn ein holl waith bargeinio a negodi masnachol
- Bydd gennym bolisiâu clir sy'n egluro'r hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, a byddwn yn sicrhau ei bod ar gael i bawb ledled y BBC.
- Byddwn yn cael cyngor arbenigol i chi os bydd ei angen amoch.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Os ydych yn gweithio ar ochr gyhoeddus y BBC

- Byddwch yn cael cyngor (a chymeradwyaeth, os bydd ei hangen) gan ein tîm Masnachu Teg a/neu ein timau Cyfraith Cystadleuaeth cyn lansio unrhyw wasanaethau newydd neu wneud newidiadau mawr i rai sy'n bodoli eisoes. Yn enwedig os ydynt yn fasnachol, yn annhebyg i unrhyw beth rydym wedi'i wneud o'r blaen, neu'n ddadleuol o bosib.

Os ydych chi'n gweithio ar ochr fasnachol y BBC (BBCW, Global News Ltd, StudioWorks a BBC Studios)

- Byddwch yn cael cyngor (a chymeradwyaeth, os bydd ei hangen) gan ein tîm rheoleiddio neu gan ein tîm Masnachu Teg a/neu ein timau Cyfraith Cystadleuaeth cyn lansio unrhyw wasanaethau newydd neu wneud newidiadau mawr i gynnyrch, prosiectau neu wasanaethau newydd.

3.4 Gwario arian yn ddoeth

Pryd bynnag y byddwch yn gwario arian ffi'r drwydded – gan gynnwys hawlio treuliau – mae'n rhaid i beth bynnag rydych yn ei wario arno gyd-fynd â'n gwerthoedd a'n strategaeth, yn ogystal â chynrychioli'r gwerth gorau am arian ar gyfer y rheini sy'n talu ffi'r drwydded.

Rydym yn sicrhau ein bod yn bodloni'r safonau moesegol ac amgylcheddol uchaf posib. Ac rydym yn disgwyl i'n cyflenwyr ni (a'u cyflenwyr hwythau) wneud yr un fath.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen amoch i gael y gwerth gorau am arian yn ein holl waith bargeinio a negodi masnachol
- Byddwn yn gwneud yn siŷd ein polisiau a'n canllawiau fyth yn golygu eich bod yn gorfod talu o'ch poced eich hun am unrhyw beth y byddwch yn ei wneud fel rhan o'ch swydd.
- Bydd gennym ganllawiau a pholisiau clir yngl na chewch ei hawlio, a byddwn yn gwneud yn si

yn a threu
wr bod pawb ledle

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Byddwch yn darllen ein polisiau ar dreuliau a phrynu a gwerthu'n foesebol ac yn glynu wrthynt – yn ogystal â chwblhau unrhyw hyfforddiant.
- Fyddwch chi ddim ond yn hawlio arian ar gyfer pethau sydd wirioneddol eu hangen amoch i wneud eich gwaith.
- Byddwch yn cofio bob amser eich bod yn gwario arian ffi'r drwydded – ac yn ei drin â'r un gofal â'ch arian eich hun.
- Byddwch yn gwneud yn si cael ei archwilio i sicrhau ei fod yn bodloni ein safonau.

wr bod unrh

3.5 Bod yn gymdeithasol

Y dyddiau hyn, mae mwy a mwy o bobl yn troi at gyfryngau cymdeithasol i gael newyddion ac adloniant, ac i gynnal dadleuon cyhoeddus. Fel darlledwr cyhoeddus, mae angen i ni ddefnyddio'r llwyfannau hyn ac ymuno yn y sgysiau hyn er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'n cynnwys ac i fwynhau mwy o'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

Ar yr un pryd, gall cyfryngau cymdeithasol fod yn llefydd sensitif iawn. Felly mae angen i ni fod yn ofalus iawn bod beth bynnag rydym yn ei ddweud neu'n ei rannu yn cydymffurfio â'n gwerthoedd a'n safonau golygyddol.

Beth allwch ei ddisgwyl gan y BBC

- Bydd gennym bolisi clir yngl ch y cyfryngau cymdeithasol, sy'n egluro beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol. A byddwn yn gwneud yn siŷd wr bod pawb yn y BBC yn gallu
- Byddwn yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen amoch i roi ein polisiau ar waith yn eich gwaith o ddydd i ddydd.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Fyddwch chi ddim yn dweud nac yn rhannu dim byd a allai niweidio enw da'r BBC.
- Byddwch yn meddwl yn ofalus cyn hoffi neu aildrydar unrhyw beth a allai ymddangos fel petai'r BBC yn mynegi barn (yn enwedig os yw'n ymwneud â gwleidyddiaeth neu grefydd).

- Byddwch yn siarad â'r ffigwr golygyddol uwch neu'r Golygydd Rhyngweithiol perthnasol, yn ogystal â'r Pennaeth Marchnata, cyn dechrau unrhyw brosiectau newydd ar gyfryngau cymdeithasol.
- Os oes gennych eich tudalen neu'ch cyfrif eich hun ar gyfryngau cymdeithasol, byddwch yn ei gwneud yn glir nad tudalen y 'BBC' ydyw – ac ni fyddwch yn defnyddio tudalennau na chyfrifon y 'BBC' i fynegi barn bersonol.
- Byddwch yn gwirio cysylltiadau ar-lein cyn eu cymeradwyo. A byddwch yn taro golwg ar eu sylwadau bob hyn a hyn.
- Byddwch yn edrych ar yr hysbysebion sy'n codi ar dudalennau â brand y BBC ar safleoedd nad ydynt yn rhai'r BBC, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol.
- Byddwch yn cofio bod llawer o'r defnyddwyr ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn ifanc, ac ni fyddwch ond yn postio neu'n rhannu pethau sy'n adlewyrchu hynny.
- Fyddwch chi ddim yn camu i'r adwy i 'heddlua' safleoedd nad ydynt yn rhai'r BBC oni bai fod rhaid i chi (hynny yw, mae mor sarhaus mae'n rhaid i chi godi'ch llais yn ei erbyn).

Nodwch, os ydych yn ceisio cael mynediad at ddolenni yn y ddogfen hon, efallai na fydd rhai ar gael y tu allan i rwydwaith y BBC. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch ein Cod Ymddygiad, cysylltwch â'ch rheolwr llinell yn y lle cyntaf.

Dolenni defnyddiol:

- A-Y o ddogfennau polisi'r BBC - <https://intranet.gateway.bbc.co.uk/fo/hr/policies>
- Tudalen Gateway ar gyfer Mynegi Pryderon - <https://intranet.gateway.bbc.co.uk/fo/hr/resolving-issues>
- Tudalen Gateway ar gyfer Gweithio gyda Phlant - <https://intranet.gateway.bbc.co.uk/fo/ssr/working-with-children>
- Tudalen Gateway ar gyfer Gwerthoedd y BBC - <https://intranet.gateway.bbc.co.uk/fo/hr/working-in-the-bbc/Pages/values.aspx>
- Canllawiau Golygyddol y BBC - <http://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidelines>
- Tudalen Gateway ar gyfer Diogelwch a Chydnerthedd - <https://intranet.gateway.bbc.co.uk/fo/ssr>
- Cynhyrchu cynaliadwy Albert (dolen allanol) - <http://wearealbert.org/>

Os ydych yn gweithio i BBC Worldwide, ewch i - <http://w-space/privacy/privacy/policies-guidelines>